FEDRWN NI GREDU GWYRTHIAU'R BEIBL?

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i sylweddoli fod gallu Duw yn fwy na digon i fod wedi cyflawni gwyrthiau'r Beibl a bod tystiolaeth y rhai oedd yn dyst iddyn' nhw ddigwydd yn gwbl ddibynadwy. Peidiwch â bychanu'r rhai sy'n amau. Dangoswch nad y gwyrthiau ynddyn' eu hunain sy'n cadarnhau ein ffydd yn Jehofah Dduw ond eu cyfraniad nhw i'n hadnabyddiaeth llawn ohono

MAE 'NA LAWER SY' DDIM YN CREDU MEWN GWYRTHIAU (4 mun.)

Rhyfeddod, syndod mawr, ydi ymateb pobl wrth weld digwyddiadau sy'n tystio i fodolaeth galluoedd y tu hwnt i ddyn a natur

Mae llawer o weithredoedd Duw y tu hwnt i amgyffred dyn, ac eto dim ond defnyddio'i allu y mae (*it*-2 411)

Mae rhai diwinyddion yn gwrthddweud gwyrthiau'r Beibl, gan ddadlau mai digwyddiadau digon cyffredin oedden' nhw wedi'u gorliwio (*w*98 10/15 3; *g*84 2/22 17)

Dim rhyfedd felly nad ydi hanner Catholigion Ffrainc, Yr Eidal, a Sbaen ddim yn credu yng ngwyrthiau'r Beibl (*g*96 4/8 4)

I lawer o wyddonwyr, athronwyr, ac eraill 'does dim sail wyddonol i'r gwyrthiau dim ond anwybodaeth ac ofergoeledd (*w*95 3/1 3; *gm* 72)

Mae honni na fu i'r gwyrthiau ddigwydd yn un peth, peth arall ydi profi hynny (*w*91 10/1 28; *it*-2 411-12)

GWAHANIAETHAU AMLWG RHWNG GWYRTHIAU'R BEIBL A HUDOLIAETH (6 mun.)

Nid storïau tylwyth teg mo wyrthiau'r Beibl na chwedlau celwydd golau, na ffrwyth dychymyg neu gampau hudol

Mae campau hudol yn dibynnu ar swynogledd, gallu cyfrin, llwyfannu arbennig, neu ddefodau i sicrhau dylanwad neu effaith ymddangosiadol goruwchnaturiol

Mae'r fath bethau'n medru twyllo pobl i gredu fod gan y person sy'n eu gwneud nhw rhyw allu arbennig gan ennill cyfoeth ac enwogrwydd iddo (*it*-2 293, 413)

Nodweddion amlwg gwyrthiau'r Beibl ydi eu bod nhw ar gael i'r cyhoedd, eu natur agored, eu symlrwydd, eu bwriad a'u cymhellion

Fel arfer, ymateb oedd y wyrth i sefyllfa oedd wedi codi neu efallai i gais neu ddymuniad rhywun—hyn oll yn digwydd heb ddim paratoi na llwyfannu (Ex 14:21-31; 1Bren 13:3-6)

Cymhelliad y sawl oedd yn cyflawni'r wyrth oedd rhoi clod i Dduw yn hytrach nag iddo'i hun (Darllen Ioan 11:1-4, 15, 40)

Dim cyflawni i greu dirgelwch neu fodloni chwiw neu fympwy

Yn aml 'roedd y wyrth yn helpu pobl yn gorfforol, ond 'roedd bob amser yn eu helpu nhw'n ysbrydol, gan arwain at wir addoliad

'Roedd gweithredoedd Iesu yn amlwg agored; nid ennill edmygedd oedd eu bwriad (*w*95 3/1 4)

Mor syml oedd ei wyrthiau wrth wella pobl a'i reolaeth ar yr elfennau (Marc 4:39; 5:25-29; 10:46-52)

Fe wellodd bawb a ddaeth ato heb fethu oherwydd diffyg ffydd rhai (Darllen Mathew 8:16; 9:35)

LLYGAD-DYSTION YN CADARNHAU FOD GWYRTHIAU'R BEIBL WEDI DIGWYDD (10 mun.)

Mae'n bosib' dod o hyd i'r gwirionedd ynglŷn â gwyrth drwy edrych yn fanwl ar dystiolaeth unigolion oedd yn bresennol a'r effaith ar y bobl hyn

Er enghraifft, 'roedd gwyrthiau Moses ac Aaron yn gyhoeddus ac yn effeithio ar filiynau (*g*74 4/8 25-6)

Gwelodd Pharo, ei weision a'i offeiriaid y wyrth gyntaf, ac yn dilyn hyn daeth deg ergyd wyrthiol ar holl wlad Yr Aifft (Ex 7:8-12, 19-21; *w*96 1/15 24)

Pan ddigwyddodd y trydydd pla bu'n rhaid i offeiriaid Pharo gyfaddef: "Trwy fys Duw y digwyddodd hyn." (Ex 8:16-19; 9:10, 11)

'Roedd yn rhaid i'r Eifftiaid gydnabod ger Y Môr Coch fod Jehofah yn cyflawni gweithredoedd mawrion dros ei bobl Israel (Ex 14:25)

Pan glywodd y disgyblion y newyddion am atgyfodiad Iesu roedden' nhw'n gwrthod credu (Luc 24:6-11)

Ond pan welsant Iesu'n fyw 'roedd yn rhaid iddyn' nhw dderbyn iddo gael ei gyfodi oddi wrth y meirw (Luc 24:34-43)

Gwelodd Mathew ac Ioan Iesu'n marw, ac mi wnaethan' nhw hefyd dystiolaethu i'w atgyfodiad (Math 27:50; 28:16, 17; Ioan 21:24; *gm* 82)

Gwelodd Paul a "phum cant o'r brodyr" y Crist atgyfodedig (1Cor 15:3-8)

Er nad oes 'na ddim llygad-dystion ar y ddaear heddiw i ddyn gael ei greu yn wyrthiol, mae'r ffaith ein bod yn bodoli yn brawf i hynny ddigwydd (*Lmn* 12)

PWRPAS GWYRTHIAU DUW (12 mun.)

Mae 'na lawer rheswm pam mae Jehofah wedi cyflawni gweithredoedd nerthol—gwyrthiau yn ôl dyn

Wrth i Jehofah amddiffyn yr Israeliaid cafodd yr Eifftiaid brawf mai ef sydd Dduw a Phenllywydd (*w*72 1/15 38-9)

Yn aml 'roedd gwyrth yn cadarnhau neu'n dangos fod Duw yn cefnogi a rhoi grym i ddyn (Ex 4:1-9)

Yn gywir daeth llawer i'r casgliad hwn am Moses ac Iesu (Ex 4:30, 31; Ioan 9:17, 31-33)

’Roedd Moses, Iesu ac eraill yn cael eu ’nabod yn bennaf nid fel gweithredwyr gwyrthiau ond fel athrawon a phroffwydi Duw

Wrth gyflawni’r gwyrthiau “amlygodd [Iesu] . . . ei ogoniant,” ’Roedd eraill wedyn yn medru ei ’nabod e, y Meseia addawedig, y Proffwyd a addawodd Moses (Darllen Ioan 2:11) (*it*-1 963-4) (Deut 18:18; Ioan 6:14)

’Roedd y gweithredoedd nerthol hyn yn cadarnhau comisiwn Iesu a’i neges ac yn cyflawni proffwydoliaeth (Ioan 5:36-39, 46, 47; 14:11; 20:27-29)

Mi ’roedd gwyrthiau Iesu yn dangos fod gan Dduw gonsýrn dros ei greadigaeth ddynol gan eu bod nhw’n ymwneud yn amlach na pheidio â phroblemau pobl

Fe wellodd e bob math o afiechydon (Math 8:14, 15; Luc 6:19; 17:11-14)

Fe atgyfododd y meirw (Math 9:23-25; Luc 7:14, 15)

Ef oedd darpariaeth benodol Duw i ryddhau dynion rhag pechod a marwolaeth, ac ’roedd y gweithredoedd nerthol hyn yn profi hynny (Marc 2:5-12)

Wrth weld y gwyrthiau’n cefnogi’r neges ’roedd hi’n amlwg fod Duw yn cefnogi’r gynulleidfa Gristnogol gynnar (Actau 13:12; Heb 2:3, 4)

’Roedd ysbryd Jehofah ar waith yn nerthol yn ystod y ganrif gynta’ yn ffurfio cynulleidfaoedd ac yn sefydlu Cristnogaeth (Actau 4:4; 16:5; *it*-2 414)

NID YW GWYRTHIAU’N ANGENRHEIDIOL HEDDIW I ADEILADU FFYDD (8 mun.)

Nid bwriad Jehofah oedd i wyrthiau fod yn rhan barhaol o addoliad y Cristion (Darllen 1 Corinthiaid 13:8) (*w*97 3/15 6)

Hyd yn oed petai gwyrthiau’n dal i gael eu cyflawni, nid pawb fyddai’n cael ei argyhoeddi

’Roedd rhai llygad-dystion i wyrthiau Iesu yn gwrthod ei ddysgeidiaeth (Ioan 11:47, 48; 12:37; *w*97 3/15 4-5)

’Does dim rhaid i Dduw gyflawni gwyrthiau heddiw er mwyn profi’i fodolaeth (Salm 19:1; Rhuf 1:20)

Sail ffydd yn Nuw ydi tystiolaeth gadarn o bethau sy’ eto i ddod; mae gwyrthiau yn cyfrannu at hyn (Heb 11:1)

Mae’r holl Ysgrythur ysbrydoledig ar gael yn sail i wir ffydd, heb orfod dibynnu’n unig ar gofnod y gwyrthiau (2Tim 3:16)

Mae ffydd sy’n deillio o iawn ddeall Gair Duw, yn llawn argyhoeddiad ac yn rymus—nid yn wan nac yn arwynebol

Rhodio “yn ôl ffydd” mae gweision Duw heddiw “nid yn ôl golwg,” gan eu bod yn gwbl sicr o wirionedd ei Air ysbrydoledig (2Cor 5:7)

Bydd dod i ddeall neges y Beibl yn help i chi beidio â chael eich siomi am fod gwyrthiau’n brin heddiw

Yr unig ffordd i rai sy’n ceisio Duw lwyddo i ddod o hyd iddo ydi wrth astudio’r Ysgrythurau (Eseia 55:6; Actau 17:26, 27)

GWYRTHIAU JEHOFAH YN Y DYFODOL YN SICRHAU BUDD A LLES DIDDIWEDD (5 mun.)

Mae Gair Duw yn llawn gwybodaeth hanfodol i lwyddo mewn bywyd ’nawr ac yn y dyfodol (1Tim 2:3, 4)

Buddiol fyddai inni ddod yn gyfarwydd â holl weithredoedd Duw sydd wedi’u cofnodi ynddo (Rhuf 15:4)

Mae gwyrthiau’r Beibl yn annog hyder yn Nuw

Maen’ nhw’n amlygu consýrn Duw am y ddynoliaeth ac yn amlygu’i allu a’i ddymuniad i amddiffyn ei weision

Mae llawer o weithredoedd mwyaf nerthol Duw eto i ddod

Yn fuan fe fydd yn difa’r drefn ddrwg bresennol (2Pedr 3:7; Dat 16:14, 16)

Mae gan filiynau, sydd â ffydd yn Nuw ac yn byw yn ôl ei gyfraith a’i egwyddorion, obaith cael byw am byth ym myd newydd cyflawn Duw (2Pedr 3:13)

Yno caiff y ddynoliaeth ffyddlon wellhad a bendithion bythol (Dat 21:4)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. ’Does dim angen darllen na gwneud sylwadau ar bob testun a grybwyllir)